# LC1318

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Eitemau Ceramig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwyd. Maent yn gosod terfynau ar faint o blwm a chadmiwm a all gael eu trosglwyddo o eitemau o'r fath, ynghyd â gofynion ar gyfer cynnal profion ar drosglwyddo (mudo) o'r fath. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrifau cydymffurfiaeth yn cael eu darparu gydag eitemau ceramig yn ystod y cyfnodau marchnata. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 84/500/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau o ran eitemau ceramig y bwriedir iddynt ddod i gyffyrddiad â bwyd.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliad 4, mae'r testun Saesneg yn croesgyfeirio at Atodlen 3 tra bo'r testun Cymraeg yn cyfeirio at Atodlen 2. Mae'r cyd-destun yn awgrymu mai'r testun Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ym mharagraff 4(1) o Ran 2 o Atodlen 2, mae'r testun Saesneg yn croesgyfeirio at baragraff 3(3) tra bo'r testun Cymraeg yn cyfeirio at bwynt 3.1. Mae'r cyd-destun yn awgrymu mai'r testun Saesneg sy'n gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain a gellir eu cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Nodwyd rhai mân bwyntiau fformadu hefyd i'w cywiro wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006